unite the UNION UNO'R UNDEB

# UNO'R UNDEB MEWN IECHYD
## CYMRU A LLOEGR

unite the UNION UNO'R UNDEB






# PLEIDLAIS YMGYNGHOROL TÂL Y GIG NAWR AR AGOR!

**LLOEGR YN AGOR 16 MEHEFIN**

**CYMRU YN AGOR 9 MEHEFIN**

## MAE 3.6% YN ANNERBYNIOL
## PLEIDLEISIWCH I WRTHOD TÂL ANNHEG

- **Bydd pleidleisio'n digwydd ar-lein. Gwiriwch eich negeseuon e-bost a'ch negeseuon testun am eich dolen bleidleisio unigryw. Heb dderbyn eich e-bost pleidleisio? E-bostiwch healthsector@unitetheunion.org**
- **Gwiriwch eich manylion aelodaeth Uno'r Undeb: Sganiwch y côd QR neu ewch i myunite.unitetheunion.org**

unite the UNION UNO'R UNDEB

## UNO'R UNDEB, YN YMLADD DROS GYFLOG TEG, STAFFIO DIOGEL AC I ACHUB EIN GIG

@unitetheunion @unitetheunion1 @unitetheunion @unitetheunion

# MAE UNO'R UNDEB YN ANNOG AELODAU I BLEIDLEISIO "ANNERBYNIOL"! PLEIDLAIS AR-LEIN YW HON.

**Cadwch lygad am y bleidlais a'r ddolen bleidleisio unigryw yn eich negeseuon e-bost ar y dyddiad y mae'r bleidlais yn agor.**

**9 Mehefin yng Nghymru a 16 Mehefin yn Lloegr. Bydd y pleidleisiau'n cau ar 1 Gorffennaf yng Nghymru a 16 Gorffennaf yn Lloegr.**

**Mae Uno'r Undeb yn credu bod y dyfarniad cyflog yn annerbyniol am y rhesymau canlynol:**

1. **Nid yw'r dyfarniad cyflog yn adferol – nid yw'n mynd i'r afael â'r dibrisio hanesyddol o gyflogau. Mae'r bwlch rhwng y cynnydd ar frig y raddfa a'r RPI yn amrywio rhwng 35% (ym mand 2) a 52% (band 9) ers mis Ebrill 2010.**
2. **Graddfa chwyddiant RPI ar gyfer Ebrill 2025 yw 4.5%. Mae'r dyfarniad cyflog yn 0.9% is. Rydyn ni'n gwybod bod chwyddiant yn taro'r rhai ar y cyflogau isaf yn galetach felly ni ellir tanamcangyfrif yr effaith.**
3. **Mae meddygon wedi cael cynnig uwch – 4% a £750 i'r rhai sydd mewn hyfforddiant. Mae undebau sy'n cynrychioli meddygon yn dweud nad yw hyn yn ddigon.**
4. **Mae cynnig yr Alban yn llawer uwch, ac mae cyflogau'r Alban yn uwch i ddechrau. Bydd staff GIG yr Alban yn derbyn 4.25% ar gyfer 2025/26 a 3.75% ar gyfer 2026/27 gyda gwarant y bydd hyn 1% yn uwch na'r gyfradd chwyddiant (CPI).**
5. **Nid yw'r dyfarniad yn mynd i'r afael â'r broblem o gyflogau isel yn y GIG, gyda rhagolygon y bydd band 1 a 2 y flwyddyn nesaf unwaith eto yn disgyn o dan yr isafswm cyfreithiol (Lloegr a Gogledd Iwerddon yn unig).**
6. **Mae'r GIG mewn argyfwng, fel y cydnabyddir gan y Llywodraeth, ac nid yw'r codiad cyflog hwn yn gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r problemau staffio sylweddol.**

unite the UNION UNO'R UNDEB

## UNO'R UNDEB, YN YMLADD DROS GYFLOG TEG, STAFFIO DIOGEL AC I ACHUB EIN GIG